**GORCHYMYN CAU FFYRDD DROS DRO**
**CYNGOR BRO MORGANNWG, ADRAN 16A**

# SIOE BRO MORGANNWG
# DYDD MERCHER 10 AWST 2022

**RHODDIR RHYBUDD DRWY HYN** bod Cyngor Bro Morgannwg wedi gwneud gorchymyn dan Adran 16A Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel a ganlyn:-

Yn ystod oriau penodol o'r diwrnod ac ar y dyddiad a nodir yng ngholofn 1 Atodlen 1 caiff y strydoedd neu'r rhannau o'r strydoedd a nodir yng ngholofn 2 yr atodlen honno eu defnyddio i gynnal digwyddiad perthnasol fel y disgrifir yn Adran 16(A) (1) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, mae'r Cyngor yn unol â'r pwerau a ddyfernir iddo dan Adran 16A Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 yn **GORCHYMYN AC YN CYFEIRIO** er mwyn hwyluso'r gwaith o gynnal y digwyddiad, galluogi'r cyhoedd i wylio'r digwyddiad hwnnw ac i leihau ar unrhyw effaith ar draffig a achosir gan y digwyddiad, gydymffurfiaeth â'r rheoliad canlynol:-

Ac eithrio'n unol â'r gorchymyn, ni chaniateir i gerbydau, gan gynnwys beiciau â phedalau, heblaw am Gerbydau'r Gwasanaethau Brys, ddefnyddio'r strydoedd a nodir neu rannau ohonynt rhwng yr oriau a nodir yng Ngholofn 3 yr atodlen honno. Y gosb am dorri'r rheoliad yw dirwy hyd at £1000.00.

**Atodlen**

| Colofn 1 | Colofn 2 | Colofn 3 |
|---|---|---|
| Dydd Mawrth 9 Awst 2022 a Dydd Mercher 10 Awst 2022 | **1 Yr A48 i'r ddau gyfeiriad rhwng Cylchfan Darren Farm a phwynt 325 metr i'r gorllewin o Gyffordd Pentre Meyrick.** Cerbydau i beidio â bod yn fwy na 30 mya Cyfyngiad Cyflymder Dros Dro | O 6.00am ddydd Mawrth 9 Awst 2022 tan 11.59pm ddydd Mercher 10 Awst 2022 |
| Dydd Mercher 10 Awst 2022 | **2 Court Road, Penllyne. O gyffordd Ffordd Rhuthun i gyffordd Ffordd Ddi-enw drwy Bentref Penllyne** Ffordd ar gau i Draffig tua'r Gorllewin. **Dargyfeirio** Bydd traffig sy'n teithio tua'r gorllewin yn cael ei ddargyfeirio i'r De drwy'r Pentref i'r A48. | O 6.00am ddydd Mercher 10 Awst tan 8.00pm ddydd Mercher 10 Awst 2022 |
| | **3 Ffordd heb ei henwi drwy Bentref Penllyne o gyffordd Court Road i gyffordd yr A48** Ffordd ar gau i Draffig tua'r Gogledd. Dim Troi i'r Dde ar gyfer Traffig tua'r Gorllewin a Dim Troi i'r Chwith ar gyfer Traffig tua'r Dwyrain o'r A48 | O 6.00am ddydd Mercher 10 Awst tan 8.00pm ddydd Mercher 10 Awst 2022 |

| | | |
|---|---|---|
| | **Dargyfeirio**<br>Bydd Traffig sy'n teithio tua'r gogledd yn cael ei ddargyfeirio drwy gyffordd Pentre Meyrick, Ffordd Rhuthun a Court Road Penllyne. | |

**Bydd Arwyddion ar gyfer Gwyriad yn cael eu gosod**

Dyddiedig 28 Gorffennaf 2022

Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai

Cyngor Bro Morgannwg, The Alps, Gwenfô CF5 6AA